

Rhaglen datblygu ymchwilwyr ar gyfer 26/27

Rydym wedi creu'r catlog hwn o weithdai i'ch helpu i gynllunio eich datblygiad fel ymchwilydd. Mae ein rhaglen bellach wedi'i mapio i Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae a ddiwygiwyd yn 2025, i'ch helpu chi fel ymchwilwyr i gynllunio, blaenoriaethu a monitro eich datblygiad eich hun. [Dysgwch fwy am sut rydym yn defnyddio'r fframwaith yn Abertawe.](#)

[Edrycha ar y gweithdai a'r digwyddiadau sydd ar ddod a chadw lle ar y sesiynau perthnasol.](#) Os na allwch ddod o hyd i ddolen archebu ar gyfer un o'r gweithdai yn y catalog, mae'n golygu eu bod yn digwydd yn semester two. Cyhoeddir manylion archebu ar gyfer y gweithdai hyn ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Chi fel Ymchwilydd	
Teitl y gweithdy	Disgrifiad o'r gweithdy
Rhoi hwb i'ch datblygiad: Cyflwyniad i'r Dadansoddiad o Anghenion Datblygu	Ydych chi'n dechrau ar eich ymchwil neu'n ystyried cofrestru ar gyfer hyfforddiant ond ddim yn siŵr beth sy'n iawn i chi? Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn cynnig cyflwyniad i'r broses Dadansoddiad o Anghenion Datblygu (DNA), a luniwyd i'ch helpu i fyfrio ar eich sgiliau a'ch gwybodaeth unigol eich hun, pennu amcanion datblygu a llunio cynllun i ddatblygu'r rhain. Byddwn yn archwilio strwythur y ddogfen DNA ac yn edrych ar rai enghreifftiau. Bydd gennych amser i weithio ar eich myfyrdodau eich hun a dechrau llunio cynllun, gyda chymorth os oes angen. Mae'r gweithdy hwn ar agor i'r holl fyfyrwyr ymchwil - p'un a ydych chi wrthi'n dechrau ar eich gwaith ymchwil neu os oes angen amser arnoch chi i fyfrio ar gam nesaf eich datblygiad. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil	Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor. Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfrio ar eich llwybr eich hun.

	Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau. Mae Sally Robb yn Swyddog Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu rhaglenni i gefnogi llwyddiant ymchwilwyr ôl-raddedig.
Cadw ar y trywydd iawn: rheoli amser, cynllunio a chymhelliant mewn ymchwil	Yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth cywir, mae angen i chi allu rheoli'ch hun a'ch amser a chadw eich cymhelliant er mwyn cwblhau prosiect ymchwil. Bydd llif a thrai naturiol wrth i chi ddilyn eich gradd ymchwil ac yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio syniadau ac offer gwahanol i'ch helpu i aros ar y trywydd iawn a gwneud cynnydd. Does dim ymagwedd benodol a fydd yn addas i bawb, felly byddwn yn cymryd amser i rannu profiadau a myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio orau i chi. Mae'r gweithdy hwn yn ddelfrydol os ydych chi ar ddechrau eich astudiaethau ac yn meddwl am sut i ddefnyddio'ch amser orau, ond mae hefyd yn gyfle da i adnewyddu neu addasu pethau gyfer y rhai hynny yng nghanau diweddarach eu hastudiaethau. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
Gorffen y traethawd ymchwil a pharatoi ar gyfer eich arholiad llafar	Nod y gweithdy hwn yw cefnogi myfyrwyr ymchwil drwy gamau olaf eu gradd. Rydym yn dechrau drwy ystyried yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni arholwyr yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar. Yna byddwn ni'n archwilio'r traethawd ymchwil ei hun: sut i gyflwyno a strwythuro eich gwaith a'r broses olygu. Yna'r arholiad llafar - beth i'w ddisgwyl, sut i baratoi ac ymarfer amddiffyn eich gwaith. Mae hyn yn agored i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam yn eu hymgeisyddiaeth (ond yn fwy priodol ar gyfer y rhai sy'n agos at gwblhau) ac mae'n gwrs dynamig, rhyngweithiol. Byddwch yn dysgu: • Dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei arholi yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar • Sut i gynllunio ar gyfer cwblhau

	• Sut i strwythuro a chyflwyno eich traethawd ymchwil wedi'i gwblhau • Sut i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar, gan gynnwys trafod eich ymchwil ac ateb cwestiynau. Sylwer, caiff y sesiwn ei rhannu'n ddwy ran. Bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn mynychu'r ddwy ran er bod croeso i chi ymuno â'r naill sesiwn neu'r llall. Bydd egwyl rhwng 11.30am a 12.00pm. 1. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 1. Y Traethawd Ymchwil 10.00am tan 11.30am 2. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 2. Yr Arholiad Llafar 12.00pm tan 1.30pm Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Kate Exley yn ymgynghorydd annibynnol ym maes datblygu addysg u, ac mae'n cynnal gweithdai a phrosiectau mewn mwy na 70 o sefydliadau ledled y byd.
Mae goruchwyliaeth yn bwysig: Gwneud y mwyaf o berthnasoedd goruchwyllo	Mae'r berthynas sydd gennych chi â'ch goruchwylwr yn un o agweddau pwysicaf eich gradd ymchwil. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio ffyrdd ymarferol y gallwch helpu i feithrin perthynas oruchwyllo effeithiol, gan gynnwys cyfathrebu, cyfarfodydd ac adborth. Byddwn hefyd yn trafod rhai astudiaethau achos a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau a chael cyngor ar eich profiadau eich hun. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
Ffocws ar Yrfaoedd: Cynllunio eich Gyrfa: Creu Cyfleoedd a Meithrin Rhwydweithiau ar gyfer Ymchwilwyr	Meithrinwch ymagwedd ragweithiol tuag at eich gyrfa drwy archwilio sut olwg sydd ar y farchnad lafur heddiw i ymchwilwyr, yr hyn sy'n bwysig i gyflogwyr, a sut i feithrin y rhwydweithiau sy'n creu cyfleoedd. Bydd y sesiwn ymarferol hon yn dangos i chi sut i wneud y gorau o gyrff proffesiynol, datblygu eich sgiliau rhwydweithio, a chymryd gyfrifoldeb am eich taith yrfa. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae gennym lawer o offerynnau ar gael i'ch helpu i ddatblygu'n broffesiynol, i ddatblygu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ogystal â'ch cefnogi i ddatblygu hyder a meddylfryd gwydn.
Ffocws ar Yrfaoedd: Ceisiadau, CVs a Chyfweliadau ar gyfer Ymchwilwyr	Meithrin y sgiliau a'r hyder i lywio prosesau recriwtio. Bydd y sesiwn ymarferol hon yn archwilio CVs academiaidd ac anacademaidd, gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn briodol yn eich ceisiadau, a sut i gyfathrebu gwerth eich ymchwil mewn cyfweliadau.

	Rhaglen newydd wedi'i dylunio'n benodol ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig mewn cydweithrediad ag arbenigwyr yn nhîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol, lle gallwch chi gysylltu ag ymchwilwyr ôl-raddedig eraill, cael cyngor arbenigol ac arweiniad unigol i'ch helpu chi i gynllunio eich gyrfa â phwrrpas. Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd - Gall ein harweiniad cyfrinachol, diduedd fod yn arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wrth i chi gynllunio i symud i fyd gwaith. Gallwn ni eich helpu chi i archwilio opsiynau, gwella ceisiadau a chynllunio eich camau nesaf. Gallwch drefnu i siarad ag un o'n hymgynghorwyr cymwysedig ar unrhyw adeg, ond efallai y byddwch yn dymuno gwneud hyn yn dilyn y gweithdai i drafod sut i gymhwyso'r hyn a ddysgoch chi i'ch amgylchiadau unigryw: https://hwb.swansea.ac.uk/careers/about-us/speak-to-an-adviser/ Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae gennym lawer o offerynnau ar gael i'ch helpu i ddatblygu'n broffesiynol, i ddatblygu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ogystal â'ch cefnogi i ddatblygu hyder a meddylfryd gwydn.
--	---

Eich Ymchwil: Gwybodaeth ac Ymarfer	
Teitl y gweithdy	Disgrifiad o'r gweithdy
Cylchgronau Academaidd: osgoi cyhoeddwr ysglyfaethus	Mae'r pwysau i gyhoeddi'n fythol-bresennol i ymchwilwyr ac academyddion, ac ochr yn ochr â hyn, mae cynnydd wedi bod mewn 'cyfnodolion ysglyfaethus'. Gall y rhain ecsbloetio a thargedu unrhyw un, o awdur tro cyntaf yn gofyn iddo dalu i gyhoeddi, i academyddion profiadol er mwyn manteisio ar eu henwau da. Gallant ddefnyddio triciau bach megis defnyddio enwau tebyg neu frandio sydd bron gwmws yr un peth i roi argraff o ddilysrwydd. Bydd y sesiwn hon yn trafod ffyrdd ymarferol o weld y gwahaniaeth, ac arwyddion rhybuddio i chwilio amdanynt wrth ddewis pa gyfnodolyn i gyflwyno eich gwaith iddo. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Cylchgronau Academaidd: dechrau cyhoeddi	Mae'r sesiwn hon yn esbonio sut mae'r broses yn gweithio, yr hyn y dylech chi ei wneud a phryd (e.e. cyhoeddi mynediad agored a'r angen am gyllid ar gyfer APC)

	Mae cyhoeddi mewn cyfnodolion academiaidd yn elfen allweddol o academia, ac yn gynyddol mae ymchwilwyr yn dechrau cyhoeddi'n gynharach yn eu gyrfaedd, gan gynnwys penodau neu elfennau wedi'u hailweithio o'u traethodau PhD. Fodd bynnag, gall y broses wirioneddol o gyflwyno beri dryswch i'r rhai hynny sy'n dod ato o'r newydd. Nod y sesiwn hon yw eich cyflwyno i'r camau sylfaenol, o gyflwyno i gyhoeddi, a mynd i'r afael â rhai o'r termau a allai fod yn anghyfarwydd i awduron newydd, megis 'Tâl Prosesu Erthygl' Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Cylchgronau Academiaidd: mesur effaith ymchwil	Mae'r sesiwn hon yn ystyried y dulliau a ddefnyddir i fesur effaith ymchwil sy'n datblygu, gan gynnwys bibliometreg, sy'n gallu cynnwys cyfraddau dyfynnu, cyfraddau cyhoeddi a chydweithio sefydliadol. Mae llawer o gamdybiaethau a chamddealltwriaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddir i asesu ymchwil, yn enwedig dulliau ansoddol megis cyfraddau dyfynnu a'r Ffactor Effaith Cyfnodolyn. Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad ac yn ganllaw i'r dulliau hyn a'u defnydd priodol, a byddant yn ddefnyddiol i'r bobl hynny sy'n gweithio mewn rôl cefnogi ymchwil, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n gwneud ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Adolygiadau Llenyddiaeth: Strategaethau Chwilio Effeithiol	Mae angen adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr ar brosiect ymchwil cryf. Bydd y sesiwn hon yn dy helpu i ddatblygu strategaeth chwilio effeithiol, dewis geiriau allweddol perthnasol, dewis cronfeydd data academiaidd priodol a defnyddio'r 5 offeryn chwilio hanfodol i ganfod gwybodaeth o safon. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Adolygiadau Llenyddiaeth: Derbyn yr wybodaeth ddiweddara	Mae'r sesiwn hon yn edrych ar yr offer i ddarganfod cyhoeddiadau newydd sy'n berthnasol i'th waith ymchwil, gan arbed amser ac ymdrech iti o bosib: hysbysiadau am gronfeydd data; hysbysiadau

	am gyfnodolion; gweinyddwyr cyn argraffu a rhwydweithiau cymdeithasol academiaidd. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Dolygiadau Llenyddiaeth: defnyddio offer AI	Mae'r sesiwn hon yn edrych ar rai o'r offer AI diweddaraf a sut y gellir eu defnyddio i ategu dulliau mwy traddodiadol o chwilio am lenyddiaeth. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil	Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor. Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchiol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eich llwybr eich hun. Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau. Mae Sally Robb yn Swyddog Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu rhaglenni i gefnogi llwyddiant ymchwilwyr ôl-raddedig.
Cyflwyniad i Grwpiau Ffocws	Mae'r sesiwn hon yn gosod grwpiau ffocws fel offeryn methodolegol defnyddiol i gasglu nifer o safbwyntiau ac ymatebion mewn achosion pan fydd ansawdd y data'n bwysicach na faint o ddata a gesglir. Mae'n cwmpasu elfennau damcaniaethol a gweithredol, ac mae'n cynnwys sut i drefnu,

	hwyluso a chymedroli grwpiau ffocws, sut i wneud y gorau o'r cyfranogwyr, a sut i reoli a dadansoddi data. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Richard Thomas yw Pennaeth yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu. Mae'n arbenigwr mewn dulliau ymchwil y cyfryngau, ac mae ei waith yn archwilio'r tueddiadau a'r patrymau sydd i'w gweld wrth ddarlledu am economeg, busnes, cyllid, gwleidyddiaeth a gwrthdaro ar draws amrywiaeth o sianeli newyddion. Mae'n Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yn arholwr PhD profiadol, yn Gadeirydd Bydeang Bwrdd Cyngori ar Raddau Meistr ar y Cyd Erasmus Mundus, ac yn aelod o dîm arweinyddiaeth y gyfadrann a Senedd y Brifysgol.
Dadansoddi Thematig Anwythol: O Ddata i Themâu	Mae dadansoddi thematig yn ffordd o nodi a dehongli patrymau ystyr ar draws data ansoddol. Yn y gweithdy ymarferol hwn, bydd cyfranogwyr yn gweithio gyda darn bach o ddata i archwilio codio cychwynnol, datblygu, adolygu ac ymglyfarwyddo â themâu a llunio adroddiad o'u canfyddiadau. Byddwn hefyd yn ystyried sut mae penderfyniadau ymchwilwyr yn llunio'r dadansoddiad a'r hyn sydd ynghlwm wrth fabwysiadu ymagwedd anwythol. Mae'r sesiwn hon yn addas i ymchwilwyr ôl-raddedig sy'n newydd i faes dadansoddi thematig neu a hoffai fagu hyder wrth ei gymhwyso i'w hymchwil; nid oes angen profiad blaenorol. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Gary Christopher yn Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ei ymchwil yn archwilio heneiddio, dementia, hunaniaeth a lles emosiynol. Mae'n cynnal ac yn goruchwyllo ymchwil feintiol ac ansoddol ac mae ganddo brofiad helaeth o gefnogi ymchwilwyr ôl-raddedig gyda dylunio astudiaethau, dadansoddi a moeseg ymchwil.
Dulliau ymchwil ansoddol: Casglu data drwy gyfweiliadau ac arolygon	Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno nifer o dechnegau casglu data ansoddol, megis cyfweiliadau ansoddol (a lled-ansoddol) ag unigolion, trafodaethau grŵp ffocws a arsylwadau cyfranogwr. Hefyd, byddwn ni'n archwilio dadansoddi data, er mwyn i chi ei ddefnyddio yn eich prosiect ymchwil. Mae ar agor i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam o'u hymgeisyddiaeth ac mae'n gwrs rhyngweithiol sy'n tynnu ar enghreifftiau ar draws y gwyddorau a phrofiadau'r cyflwynydd wrth gynnal cyfweiliadau ansoddol mewn ardaloedd yn Affrica ac Asia y mae rhyfel wedi effeithio arnynt. Byddwch yn dysgu: • Dealltwriaeth o amrywiaeth o dechnegau casglu a dadansoddi data ansoddol gwahanol • Y gallu i gynllunio'r defnydd o gasglu a dadansoddi data ansoddol yn eich prosiect ymchwil chi

	Y gallu i fyfrio ar eich rôl fel ymchwilydd yn y byd cymdeithasol a sut mae hyn yn dylanwadu ar y data a gesglir. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Krijn Peters yn gymdeithasegydd datblygu gwledig sy'n arbenigo mewn ailadeiladu ar ôl rhyfel, datblygu rhyngwladol, gwasanaethau trafnidiaeth a thechnoleg.
Dod i'w hadnabod, dod i wybod popeth amdanynt: Cyfweliadau ac ethnograffeg fel offer ymchwil	Bydd y sesiwn hon yn cwmpasu dau o'r dulliau ansoddol mwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y gwyddorau cymdeithasol - cyfweliadau ac ethnograffeg (arsylwi cyfranogol). Caiff yr offer hyn eu cyflwyno gyda'i gilydd oherwydd eu bod yn aml yn cael eu defnyddio ar y cyd mewn proses ymchwil ailadroddol, a chyda'i gilydd gallant helpu i rannu canfyddiadau wrth ei gilydd. Pan fo'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gallant ateb cwestiynau na ellir eu hateb gan ddulliau mwy ansoddol. Pan fo'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol, gallant ateb y cwestiynau "pam" oherwydd gallwch ofyn 'pam' i bobl neu eu gweld nhw'n gwneud rhywbeth sy'n ateb y cwestiwn. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Ceri Hughes yn Uwch-ddarlithydd mewn Newyddiaduriaeth yn Adran y Cyfryngau, Cyfathrebu, Newyddiaduraeth a Chysylltiadau Cyhoeddus Enillodd ei PhD o'r Ysgol Newyddiaduriaeth a Chyfathrebu Torfol ym Mhrifysgol Madison-Wisconsin. Mae ei ddiddordebau ymchwil cyffredinol ym maes cyfathrebu gwleidyddol. Mae gwaith diweddar wedi archwilio cyfathrebiadau gan bartïon gwleidyddol llai o faint a chyfathrebiadau amdanynt, a'r defnydd o iaith grefyddol mewn areithiau gwleidyddol a chamwybodaeth. Mae ei waith cyfredol yn archwilio honiadau o gydbwysedd a niwtraliaeth ar raglen trafodaeth wleidyddol y BBC, <i>Question Time</i>.
Dulliau ymchwil ansoddol: Nvivo	Mae Nvivo yn becyn meddalwedd i hwyluso'r broses o amgodio data ansoddol. Mae'n caniatáu i'r ymchwilydd ddosbarthu, trefnu ac archwilio cysylltiadau mewn data ar sail testun, e.e. trawsgrifiadau o gyfweliadau neu holiaduron, er ei fod hefyd yn gallu ymdrin â ffeiliau sain a fideo. Bydd y gweithdy hwn yn darparu cyflwyniad sylfaenol i Nvivo. Bydd y gweithdy yn cynnwys: - Sut i greu prosiect Nvivo. - Cyflwyniad i amgylchedd Nvivo. - Dulliau gwahanol o amgodio data. - Rhai ffyrdd syml o gyflwyno'r data. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Chris yn Uwch-ddarlithydd yn yr Adran Troseddeg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, gyda chefnidir mewn

	cymdeithaseg ac athroniaeth. Mae wedi cyhoeddi dros 40 o erthyglau a phenodau llyfrau, ynghyd ag ysgrifennu dau lyfr ar bynciau ym meysydd astudiaethau gwyddoniaeth a thechnoleg a chymdeithaseg risg amgylcheddol.
Dulliau gweledol	Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno dadansoddiad amlfodd fel dull defnyddiol ar gyfer archwilio rhywbeth sy'n cyflwyno gwybodaeth drwy ddulliau gwahanol yn feirniadol - geiriau, lluniau, capsiynau, fideo ac yn y blaen. Mae'n ystyried elfennau unigol dadansoddi, a'r strwythurau angenrheidiol i wahaniaethu rhwng dadansoddi trwyadl a gwerthfawrogi celf Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Richard yw Pennaeth yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu. Mae'n arbenigwr mewn dulliau ymchwil y cyfryngau, ac mae ei waith yn archwilio'r tueddiadau a'r patrymau sydd i'w gweld wrth ddarlledu am economeg, busnes, cyllid, gwleidyddiaeth a gwrthdaro ar draws amrywiaeth o sianeli newyddion. Mae'n Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yn arholwr PhD profiadol, yn Gadeirydd Byd-eang Bwrdd Cyngori ar Raddau Meistr ar y Cyd Erasmus Mundus, ac yn aelod o dîm arweinyddiaeth y gyfadrannau a Senedd y Brifysgol.
Cynnal ymchwil feintiol: Clinig data	Ydy rhifau anodd yn eich drysu? Ddim yn siŵr sut i ysgrifennu côd neu ddehongli allbwn rhifiadol? Bydd y Clinig Ystadegau ar agor ar Dydd Llun bob mis o Tachwedd tan Mehefin. Bydd staff sydd â phrofiad o weithrediadau a meddalwedd ystadegol (SPSS, Mplus, Stata, R, JASP etc) yn cynnig cymorth gyda'ch cwestiynau neu'ch problemau. Mae hyn yn cynnwys: • Cyngor ar y model mwyaf priodol ar gyfer eich data • Gwirio allbwn ystadegol i sicrhau dehongliad priodol a chywirdeb • Awgrymu meddalwedd ar gyfer dadansoddi ystadegol • Cymorth i reoli, paratoi neu lanhau data • Nodi adnoddau neu bobl ddefnyddiol i'ch helpu gyda phroblem anoddach. Dewch â'r cynnwys hoffech chi gael cymorth gydag ef a gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu rhannu hyn ag aelod o'r staff y gallwch ymddiried ynddo a fydd yn cadw'r canlyniadau hyn yn gyfrinachol. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Emily Lowthian yn Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe yn yr Adran Astudiaethau Addysg a Phlentyndod, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol. Mae ei harbenigedd methodolegol ym maes dulliau meintiol, yn benodol modelu hafaliad strwythurol (SEM) a thechnegau uwch eraill (dadansoddi goroesi, effeithiau sefydlog/ar hap). Hefyd, mae ganddi brofiad o ddefnyddio data

	gweinyddol (labordy diogel SAIL ac UKDA) a data carfan (e.e., ALPSAC, MCS).
Cynnal ymchwil feintiol: Cyflwyniad i Reoli Data	Mae rheoli a pharatoi data yn un o'r sgiliau pwysicaf i'w dysgu wrth ddefnyddio data meintiol. Mae defnyddio cydrannau data yn hwyluso dadansoddi cywir a chasgliadau cadarn. Mae paratoi data yn magu ymwybyddiaeth o gryfderau a chyfyngiadau'r data. Yn aml, nid yw'r sgiliau hyn yn cael eu haddysgu a chymerir yn ganiataol eu bod eisoes gan yr ymchwilydd, er eu bod yn aml yn cael eu nodi fel y rhan fwyaf heriol o ddefnyddio data. Bydd y sesiwn hon yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau paratoi data o ran rheoli a glanhau. Bydd hyn ar gyfer data trawsdoriadol yn bennaf, ond darperir adnoddau defnyddiol ar gyfer data hydredol lle mae amser yn gysylltiedig. Byddwch yn dysgu: • Sut i ail-godio newidynnau • Sut i labelu newidynnau • Sut i ddeall a gweithio gyda data coll • Sut i drin data gan sicrhau arferion da ac ymwybyddiaeth • Sut i gyfuno setiau data Gwneir hyn ar SPSS, ond yn aml gall y dysgu fynd y tu hwnt i feddalwedd a disgyblaethau. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Emily Lowthian yn Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe yn yr Adran Astudiaethau Addysg a Phlentyndod, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol. Mae ei harbenigedd methodolegol ym maes dulliau meintiol, yn benodol modelu hafaliad strwythurol (SEM) a thechnegau uwch eraill (dadansoddi goroesi, effeithiau sefydlog/ar hap). Hefyd, mae ganddi brofiad o ddefnyddio data gweinyddol (labordy diogel SAIL ac UKDA) a data carfan (e.e., ALPSAC, MCS).
Dulliau ymchwil meintiol: Cyflwyniad i SPSS	Nod y gweithdy rhagarweiniol ymarferol hwn yw rhoi i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yr wybodaeth a'r hyder sylfaenol i ddefnyddio SPSS at ddibenion dadansoddi data meintiol. Drwy gyfres o ymarferion ymarferol, bydd cyfranogwyr yn cael profiad o fewnbynnu, codio, glanhau a rheoli data, cyn symud ymlaen i gymhwyso technegau ystadegol a ddefnyddir yn aml. Bydd y sesiwn yn ymdrin â dethol a defnyddio profion parametrig ac anparametrig, gan roi pwyslais arbennig ar ddeall rhagdybiaethau sylfaenol, dewis dadansoddiadau priodol a dehongli allbynnau ystadegol yn gywir. Gan nad oes angen profiad blaenorol o SPSS, mae'r sesiwn hon yn addas i ddechreuwyr ac yn gyflwyniad ymarferol i ddadansoddi data meintiol. Bywgraffiad yr Hyfforddwr:

	Mae Dr Juman Al-Dujaili yn Uwch-ddarlithydd Fferylliaeth yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, sydd â phroffil rhyngwladol sefydledig mewn ymarfer fferylliaeth ac ymchwil i ganlyniadau iechyd. Mae'n meddu ar arbenigedd helaeth ym meysydd adolygiadau systematig, meta-ddadansoddiadau, dilysu seicometrig, ymchwil arolygon a dadansoddi data gofal iechyd.
Cynnal ymchwil feintiol: Dylunio arolwg: pecyn cymorth	Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o gynnal ymchwil gan ddefnyddio arolygon - bydd yn cynnwys arolygon ar-lein yn bennaf, ond gellir defnyddio'r sgiliau hyn ar gyfer arolygon papur hefyd. Bydd y sesiwn yn dechrau drwy roi trosolwg o brosesau cynllunio, dosbarthu a chasglu arolygon. Wedyn bydd yn archwilio manteision ac anfanteision amrywiaeth o ddulliau casglu (e.e. post, ar-lein, ar y stryd fawr) a'r ystyriaethau moesegol a sut rydym yn cydymffurfio â diogelu data. Yna byddwch yn cael profiad ymarferol ac yn archwilio defnyddio Qualtrics i lunio arolygon a gwerthuso sut gallwn eu llunio i sicrhau ymrwymiad parhaus ein cyfranogwyr Byddwch yn dysgu: • Proses ymgymryd ag ymchwil drwy arolygon • Manteision ac anfanteision dulliau gwahanol • Ystyriaethau moesegol a chydymffurfio â diogelu data • Llunio arolwg • Defnyddio Qualtrics (meddalwedd arolwg) • Dulliau dosbarthu • Ystyriaethau o ran dadansoddi
Dod i adnabod LaTeX	Mae'r gweithdy hwn yn ganllaw i ddechreuwyd i ysgrifennu dogfennau yn LaTeX gan ddefnyddio Overleaf. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol nac unrhyw iaith gyfrifiadura arall ar gyfer y gweithdy hwn, bydd yn ymdrin â hanfodion LaTeX gan gynnwys strwythur y ddogfen, testun cysodi, tablau, ffigurau, hafaliadau a mewnosod cyfeiriadau. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Canolfan Llwyddiant Academiaidd Mae'r Ganolfan ar gyfer llwyddiant academiaidd yma i'ch cefnogi wrth ddatblygu eich sgiliau astudio academiaidd a chyflawni eich nodau. Mae pob un o'n staff yn gymwys iawn a chanddynt flynyddoedd o brofiad gan roi cyngor a chymorth cyfeillgar a phroffesiynol.
LaTeX Canolradd	Mae'r gweithdy canolraddol hwn yn adeiladu ar y gweithdy Ymgyfarwyddo â LaTeX drwy archwilio'r pecyn cyflwyno yn LaTeX o'r enw Beamer. Byddwn hefyd yn ymdrin â phecynnau mwy cymhleth mewn LaTeX ac yn edrych ar sut i'w defnyddio. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Canolfan Llwyddiant Academiaidd Mae'r Ganolfan ar gyfer llwyddiant academiaidd yma i'ch cefnogi wrth ddatblygu eich sgiliau astudio academiaidd a chyflawni eich

	nodau. Mae pob un o'n staff yn gymwys iawn a chanddynt flynyddoedd o brofiad gan roi cyngor a chymorth cyfeillgar a phroffesiynol.
Rheoli Cyfeiriadau gan ddefnyddio Endnote	Dewch i'r sesiwn hon os... Rydych eisiau arbed amser ac atal camgymeriadau yn eich rhestr dyfyniadau a chyfeiriadau, gall meddalwedd rheoli cyfeiriadau wneud eich gwaith academiaidd yn haws: bydd yn cadw eich cyfeiriadau yn drefnus ac yn ddiogel, yn storio ffeiliau PDF ac yn fformatio eich cyfeiriadau yn awtomatig pan fyddwch yn ysgrifennu. Mae EndNote yn feddalwedd sydd ar gael ar y campws - bydd y sesiwn hon yn cyflwyno manteision ac anfanteision y fersiynau ar-lein/bwrdd gwaith i chi ac yn eich gosod ar ben ffordd. Ar ddiwedd y sesiwn hon... Byddwch yn deall prif nodweddion a buddiannau fersiynau Bwrdd Gwaith ac Ar-lein EndNote. Byddwch yn gallu defnyddio EndNote i gasglu a threfnu eich cyfeiriadau. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academiaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Gweithio'n Wel	Gweithio'n Well: dulliau digidol ar gyfer ymchwilwyr sy'n gallu arbed amser i chi Hoffech gael argymhellion ar gyfer dulliau ac apiau arloesol ar-lein a fydd yn eich helpu i weithio mewn modd mwy effeithlon Mae ymchwil ar lif gwaith a chyfathrebu yn cael ei drawsnewid gan ddulliau ac apiau arloesol ar-lein sy'n gallu helpu gyda gwaith trefnu, cyd-weithio a chynhyrchiant (gweler y prosiect "Innovations in Scholarly Communications", er enghraifft). Bydd y sesiwn hon yn archwilio rhai o'r dulliau sydd ar gael gydag argymhellion personol ac awgrymiadau ynglŷn â'u defnydd. Ar ddiwedd y sesiwn hon... Byddwch wedi archwilio rhai o'r dulliau ac apiau sydd ar gael er mwyn arbed amser ac ymdrech gyda'ch ymchwil: Trefnu nodiadau a deunydd, Datblygu syniadau, Rheoli amser, Cydweithio

	Cynhelir yr hyfforddiant hwn trwy Zoom. Anfonir Dolen y Cyfarfod atoch chi cyn y digwyddiad. Sicrhewch eich bod chi'n cofrestru gan ddefnyddio eich cyfrif e-bost prifysgol Abertawe. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
--	---

Eich Ymchwil: Rheoli Ymchwil	
Teitl y gweithdy	Disgrifiad o'r gweithdy
Dangoswch yr arian i mi! Cyflwyniad i geisiadau am gyllid ymchwil	Nid yw hi byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am gyllid ymchwil! Yn y sesiwn hon, byddwn yn archwilio amgylchedd ariannu ymchwil y Deyrnas Unedig a'r hyn y mae angen i chi ei wybod i gyflwyno cynigion prosiect cystadleuol ar ôl eich PhD. Gall ysgrifennu ceisiadau ym myd diwydiant fod yn yrfa broffidiol, felly dyma sgîl trosglwyddadwy gwyh i'w ddysgu! Erbyn diwedd y sesiwn hon, byddwch yn gallu: • Nodi cyfleoedd ariannu sydd ar gael i chi • Deall yr hyn mae arianwyr prosiectau am ei gefnogi • Deall pa wybodaeth y mae ei hangen mewn cais am gyllid, a sut dylech ei chyflwyno • Cyfathrebu ynghylch eich ymchwil chi mewn ffordd afaelgar i gynulleidfa anarbenigol Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dominic Parkes yn Ysgrifennwr Ceisiadau Datblygu Ymchwil yn y Brifysgol, ac mae ganddo arbenigedd mewn dod o hyd i gyllid ar gyfer ymchwil.

Eich Ymchwil: Ymgysylltu ac Effaith	
Teitl y gweithdy	Disgrifiad o'r gweithdy
Cylchgronau Academaidd: osgoi	Mae'r pwysau i gyhoeddi'n fythol-bresennol i ymchwilwyr ac academyddion, ac ochr yn ochr â hyn, mae cynnydd wedi bod

cyhoeddwy ysglyfaethus	mewn 'cyfnodolion ysglyfaethus'. Gall y rhain ecsbloetio a thargedu unrhyw un, o awdur tro cyntaf yn gofyn iddo dalu i gyhoeddi, i academyddion profiadol er mwyn manteisio ar eu henwau da. Gallant ddefnyddio triciau bach megis defnyddio enwau tebyg neu frandio sydd bron gwmws yr un peth i roi argraff o ddilysrwydd. Bydd y sesiwn hon yn trafod ffyrdd ymarferol o weld y gwahaniaeth, ac arwyddion rhybuddio i chwilio amdanynt wrth ddewis pa gyfnodolyn i gyflwyno eich gwaith iddo. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Cylchgronau Academaidd: dechrau cyhoeddi	Mae'r sesiwn hon yn esbonio sut mae'r broses yn gweithio, yr hyn y dylech chi ei wneud a phryd (e.e. cyhoeddi mynediad agored a'r angen am gyllid ar gyfer APC) Mae cyhoeddi mewn cyfnodolion academaidd yn elfen allweddol o academia, ac yn gynyddol mae ymchwilwyr yn dechrau cyhoeddi'n gynharach yn eu gyrfaedd, gan gynnwys penodau neu elfennau wedi'u hailweithio o'u traethodau PhD. Fodd bynnag, gall y broses wirioneddol o gyflwyno beri dryswch i'r rhai hynny sy'n dod ato o'r newydd. Nod y sesiwn hon yw eich cyflwyno i'r camau sylfaenol, o gyflwyno i gyhoeddi, a mynd i'r afael â rhai o'r termau a allai fod yn anghyfarwydd i awduron newydd, megis 'Tâl Prosesu Erthygl' Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Cylchgronau Academaidd: mesur effaith ymchwil	Mae'r sesiwn hon yn ystyried y dulliau a ddefnyddir i fesur effaith ymchwil sy'n datblygu, gan gynnwys bibliometreg, sy'n gallu cynnwys cyfraddau dyfynnu, cyfraddau cyhoeddi a chydweithio sefydliadol. Mae llawer o gamdybiaethau a chamddealltwriaeth ynghylch y dulliau a ddefnyddir i asesu ymchwil, yn enwedig dulliau ansoddol megis cyfraddau dyfynnu a'r Ffactor Effaith Cyfnodolyn. Mae'r sesiwn hon yn gyflwyniad ac yn ganllaw i'r dulliau hyn a'u defnydd priodol, a byddant yn ddefnyddiol i'r bobl hynny sy'n gweithio mewn rôl cefnogi ymchwil, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n gwneud ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Uwch-swyddogion Llyfrgell (Addysg) mae tîm Cymorth Academaidd y Llyfrgell yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd

	i wybodaeth, ei gwerthuso a'i defnyddio'n hyderus drwy gydol eich astudiaethau a'r tu hwnt.
Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 1: Dod yn Ysgrifennwr Ymchwil	Hwb i'ch taith i fod yn ysgrifennwr ymchwil hyderus ac effeithiol. Datblygwch arferion ysgrifennu da ac archwilio'r offer sy'n hollbwysig i drawsnewid eich proses ysgrifennu, gan ddarganfod elfennau allweddol arddull academiaidd effeithiol. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 2: Crynodeb, Cyflwyniadau a Llif	Dal sylw'r darlennydd o'r gair cyntaf, creu cyflwyniadau a chrynodebau gafaelgar sy'n amlinellu eich ymchwil, gwella'r strwythur a'r llif, esbonio gwerth unigryw eich gwaith a meistrolï crefft cyflwyno gwybodaeth. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 3: Ysgrifennu beirniadol: Adolygu llenyddiaeth	Dysgwch syntheseiddio ymchwil bresennol â'ch syniadau eich hun, gan leoli eich gwaith yn y maes ehangach, darganfod ffyrdd o ddatblygu eich dadl a meithrin llais ysgolheigaidd hyderus wrth lunio adolygiadau llenyddiaeth sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch cyfraniad unigryw. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 4: Ysgrifennu am ddulliau ymchwil	Byddwch yn dysgu'r gwahaniaeth rhwng methodoleg a dulliau a'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhenodau dylunio ymchwil eich traethawd ymchwil. Byddwch yn gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno am eich proses dylunio ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Ysgrifennu Ymchwl Ôl-raddedig Sesiwn 5: Penodau olaf a golygu	Yn y gweithdy hwn byddwch yn dysgu strwythuro eich trafodaethau a'ch casgliadau'n effeithiol, sut i gyflwyno honiadau a'u hategu'n hyderus a gadael argraff barhaol ar eich darllenwyr. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Ysgrifennu Academiaidd, Sesiwn 6: Golygu eich traethawd ymchwil.	Mae gwaith sydd wedi'i gyflwyno'n dda yn ennill graddau uwch. Bydd y gweithdy ymarferol hwn yn addysgu'r holl awgrymiadau a syniadau i chi fireinio eich sgiliau a pherffeithio eich gwaith. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Gweithdai Ysgrifennu Ymchwil Wythnosol ar	Mae'r gweithdai ysgrifennu ymchwil wythnosol hyn, a gynhelir gan y Ganolfan ar gyfer Llwyddiant Academiaidd (CAS), yn sesiynau

gyfer Myfyrwyr Ôl-raddedig	anffurfiol ac ymarferol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ysgrifennu, gofyn cwestiynau, dysgu a rhannu arferion gorau. Yn ystod 30 munud cyntaf pob gweithdy 90 munud, bydd tiwtor CAS yn cyflwyno agwedd ar arferion ysgrifennu da sy'n seiliedig ar waith o ansawdd uchel sydd wedi'i gyhoeddi. Mae gweddill y sesiwn wedi'i neilltuo ar gyfer trafodaeth a rhoi cyngor ymarferol ar sut y gellir defnyddio'r dechneg ysgrifennu i wella ansawdd y dadansoddi, y gwerthuso a chyflwyniad gwaith y myfyrwyr. Cynhelir y gweithdai ar sail 'galw heibio', heb fod angen cadw lle ymlaen llaw. Er mwyn cael y budd pennaf ohonynt, ac fel arwydd o gwrteisi i'r myfyrwyr eraill, sicrhewch eich bod yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer dechrau pob gweithdy. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Steven Lovatt yn diwtor yn y Ganolfan Llwyddiant Academaidd, yn ogystal â bod yn awdur ac yn olygydd.
Gorffen y traethawd ymchwil a pharatoi ar gyfer eich arholiad llafar	Nod y gweithdy hwn yw cefnogi myfyrwyr ymchwil drwy gamau olaf eu gradd. Rydym yn dechrau drwy ystyried yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni arholwyr yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar. Yna byddwn ni'n archwilio'r traethawd ymchwil ei hun: sut i gyflwyno a strwythuro eich gwaith a'r broses olygu. Yna'r arholiad llafar - beth i'w ddisgwyl, sut i baratoi ac ymarfer amddiffyn eich gwaith. Mae hyn yn agored i fyfyrwyr ymchwil ar bob cam yn eu hymgeisyddiaeth (ond yn fwy priodol ar gyfer y rhai sy'n agos at gwblhau) ac mae'n gwrs dynamig, rhyngweithiol. Byddwch yn dysgu: • Dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei arholi yn y traethawd ymchwil a'r arholiad llafar • Sut i gynllunio ar gyfer cwblhau • Sut i strwythuro a chyflwyno eich traethawd ymchwil wedi'i gwblhau • Sut i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar, gan gynnwys trafod eich ymchwil ac ateb cwestiynau. Sylwer, caiff y sesiwn ei rhannu'n ddwy ran. Bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn mynychu'r ddwy ran er bod croeso i chi ymuno â'r naill sesiwn neu'r llall. Bydd egwyl rhwng 11.30am a 12.00pm. 1. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 1. Y Traethawd Ymchwil 10.00am tan 11.30am 2. Cwblhau eich Gradd Ymchwil: Rhan 2. Yr Arholiad Llafar 12.00pm tan 1.30pm Bywgraffiad yr Hyfforddwr:

	Mae Dr Kate Exley yn ymgynghorydd annibynnol ym maes datblygu addysg u, ac mae'n cynnal gweithdai a phrosiectau mewn mwy na 70 o sefydliadau ledled y byd.
Cyfathrebwch yn hyderus i greu effaith	Ydych chi'n teimlo'n nerfus wrth siarad o flaen cynulleidfya? Eisiau gwella eich sgiliau wrth gyfleu eich ymchwil ar gyfer cyflwyniadau, sgysiau, eich arholiad llafar (viva) neu sgysiau pob dydd? Mae'r gweithdy, dan arweiniad yr hyfforddwr siarad yn gyhoeddus a'r cyfarwyddwr, Charlotte Lewis, wedi'i gynllunio i'ch helpu i oresgyn yr heriau hyn a siarad â mwy o ruglder ac effaith. P'un a ydych yn ystyried sut i ymgysylltu â defnyddwyr neu randdeiliaid, cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, ymgysylltu â byd diwydiant neu fyd masnach, neu eisiau ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o rannu negeseuon allweddol eich ymchwil - mae cyfathrebu llawn effaith yn allweddol! Drwy weithgareddau rhyngweithiol ac adborth amser go iawn, byddwch yn meithrin technegau ymarferol i siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o leoliadau. Ar ôl 90 munud, byddwch yn cyfnewid teimladau o amheuaeth ac anghysur am hyder ac eglurder, gan deimlo'n fwy hyderus i fynegi eich hun a manteisio ar gyfleoedd newydd. Rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol sut beth yw wynebu nerfau wrth siarad a hyder isel, ac mae'r adnoddau hyn wedi newid fy mywyd er gwell. Dewch yn barod i gymryd rhan, gan ddod ag unrhyw senarios penodol o ran siarad yr hoffech chi gael cymorth gyda nhw. Ac os hoffech chi gael ychydig mwy o ddealltwriaeth o bwy ydw i a sut rydw i'n cefnogi pobl fy mhodlediad yw 'Speaker S.O.S!' ac mae ar gael ar y rhan fwyaf o blatfformau ffrydio. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Charlotte Lewis yn ymgynghorydd ac yn hyfforddwr siarad yn gyhoeddus sy'n helpu cleientiaid i edrych, swnio a theimlo'n fwy naturiol wrth ymgymryd â chyfleoedd i siarad. Mae ei chleientiaid wedi cynnwys cyflwynwyr, perfformwyr a dylanwadwyr, perchnogion busnes, entrepreneuriaid ac ymgyrchwyr. Mae Charlotte hefyd yn cyd-gyflwyno'r podlediad 'Speaker S.O.S!' gyda'r cyflwynydd a'r artist llais Luke Davies. Mae cefndir Charlotte ym myd y theatr, ar ôl gweithio fel cyfarwyddwr rhyngwladol am bron degawd. Ar ôl graddio o'r MFA o fri mewn Cyfarwyddo yng Ngholeg Birkbeck Llundain, mae hi wedi cydweithio â Chyfnwidfa Frenhinol Manceinion, Theatr Genedlaethol Cymru, Common Wealth Theatre, Ymddiriedolaeth Artichoke, Canolfan y Southbank, Canolfan Mileniwm Cymru, White Horse yn Shanghai, Tuida yn Ne Korea a Meta Arts yn India a mwy.

	Yn fwy diweddar mae hi wedi cyfarwyddo ffilmiau brand, fideos cerddoriaeth, a gosodweithiau celf sain sydd i'w gweld ar draws prosiectau cymunedol mewn mannau fel Penrhys a'r Rhath. Ar hyn o bryd mae Charlotte ar daith The Tigerface Show o amgylch y DU. Ar ôl wynebu ofnau siarad yn gyhoeddus, a gweld sut y cyfyngodd hynny ar ei chyfleoedd proffesiynol a phersonol, aeth Charlotte ati i greu ffyrdd o fanteisio ar ei chefnidir yn y theatr a'i phrofiadau fel ymarferydd ioga a gwaith anadlu cymwysedig i oresgyn ei phryder. Ar ôl cael llwyddiant gyda'r technegau hyn, dechreuodd Charlotte ei busnes ei hun i rannu'r arferion hyn â mwy o bobl, gan eu helpu i gyflawni eu potensial, cysylltu â'u llais ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.
Tu hwnt i'r Traethawd Ymchwil: Rhaglen sgiliau i gael effaith - Adrodd Stori Eich Ymchwil	Gallwch chi esbonio yr hyn rydych chi'n ei ymchwilio a pham ei bod yn bwysig? Mae gan bob prosiect ymchwil stori. Gall dod o hyd i'r stori honno a'i hadrodd eich helpu i gyfathrebu eich ymchwil yn gliriach, cysylltu â chynulleidfaoedd gwahanol a mynegi arwyddocâd ehangach a chyfraniad posibl eich gwaith. Ymunwch â ni ar gyfer y gweithdy rhyngweithiol hwn sy'n archwilio effaith ymchwil, adrodd straeon a sut i gyfathrebu ymchwil gymhleth mewn ffordd hygyrch a diddorol. Ei roi ar waith Byddwch yn cael cyflwyniad i amrywiaeth o ymagweddau adrodd straeon cyn creu eich bwrdd stori ymchwil eich hun i ddod â'ch ymchwil yn fyw. Wedyn, byddwch chi'n cael adborth ac yn mireinio sut rydych chi'n cyfathrebu eich gwaith.
Tu hwnt i'r Traethawd Ymchwil: Rhaglen sgiliau i gael effaith - Rhoi Llais i'ch Ymchwil yn y Senedd	Sut gall eich ymchwil helpu i lywio polisi yng Nghymru? Sut mae ymchwil academiaidd yn cyrraedd llunwyr polisi, a sut gallwch sicrhau bod eich ymchwil yn cael ei chlywed? Bydd y sesiwn hon yn rhoi cyflwyniad i chi i dirwedd polisi Cymru ac yn archwilio ffyrdd ymarferol y gall ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd a chyfathrebu eu hymchwil i gynulleidfaoedd polisi. Ei roi ar waith Ar ôl y sesiwn, bydd gennych chi'r cyfle i ddatblygu polisi briffio byr yn seiliedig ar eich ymchwil eich hun, a'i gyflwyno er mwyn cael adborth gan arbenigwyr.

	Nid oes angen profiad blaenorol ym maes polisi - dewch â'ch ymchwil a diddordeb mewn archwilio'r ffyrdd y gall wneud gwahaniaeth!
Tu hwnt i'r Traethawd Ymchwil: Rhaglen sgiliau i gael effaith - Dod â'ch Ymchwil yn Fyw	Sut gallwch sicrhau bod pobl yn ymgysylltu â'ch ymchwil? Gall ymgysylltu â'r cyhoedd eich helpu i rannu eich ymchwil y tu hwnt i'r byd academiaidd, dechrau sgysiau gyda chynulleidfaoedd gwahanol a chreu cyfleoedd i bobl ymgysylltu â'r ymchwil a chyfrannu ati. Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn archwilio sut i droi eich ymchwil yn weithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystyrlon, o adnabod eich cynulleidfa a'ch diben i ddylunio, cyflwyno a gwerthuso ymgysylltiad. Ei roi ar waith Byddwch chi'n datblygu eich cynnig eich hun ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd yn seiliedig ar eich ymchwil, gan ystyried eich cynulleidfa, eich diben, y gweithgaredd, materion ymarferol a sut y gallwch werthuso ei lwyddiant. Fe'ch gwahoddir i rannu eich syniad ag ymchwilwyr eraill, cael adborth a mireinio eich cynnig. Ydych chi eisiau datblygu eich syniad? Ar ôl y gweithdy, bydd cyfranogwyr sydd eisiau datblygu eu syniad ymhellach yn cael eu cefnogi, lle bo'n briodol ac yn ddichonadwy, i archwilio llwybrau posibl tuag at weithgaredd go iawn i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy fentrau a chyfleoedd yn y Brifysgol.
Tu hwnt i'r Traethawd Ymchwil: Rhaglen sgiliau i gael effaith - Cyflwyno Eich Ymchwil: Troi Ymchwil yn Gyfle	Gallwch chi berswadio rhywun i gyllido eich ymchwil, i gydweithio â chi, i gymryd rhan yn eich ymchwil neu ymgysylltu â hi? Mae gallu cyfathrebu gwerth a pherthnasedd eich ymchwil yn gallu helpu i agor drysau i gyfleoedd newydd, o gyllid a chydweithio i gyfryngau, digwyddiadau ac ymgysylltu allanol. Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn archwilio'r hyn sy'n gwneud cyflwyniad ymchwil effeithiol, sut i ddeall yr hyn sy'n bwysig i'ch cynulleidfa, a sut i gyfathrebu eich ymchwil yn glir, yn gryno ac mewn ffordd berswadiol. Ei roi ar waith Byddwch chi'n datblygu ac yn cyflwyno cynnig dau funud o hyd yn seiliedig ar eich ymchwil eich hun, yn ei rannu ag ymchwilwyr eraill, yn cael adborth ac yn nodi sut y gallwch wneud eich cynnig yn fwy cymhellol.

	Ydych chi eisiau mynd ymhellach? Ar ôl y gweithdy, bydd gennych chi'r opsiwn i ymgymryd â her 'Dewis Eich Cynnig' a chyflwyno'r cynnig rydych chi wedi'i ddatblygu er mwyn cael adborth ffurfiannol. Wedyn, gallwch ddefnyddio'r adborth hwnnw i fireinio cynnig sy'n berthnasol i gyfle yr hoffech chi ymgymryd ag ef.
Sut i greu a chyflwyno poster ymchwil effeithiol ar ffurf poster cynhadledd academiaidd i ymchwilwyr ôl-raddedig	Fel rhan o'r sesiwn byddwn yn 1. Ystyried diben poster ymchwil ar ffurf poster cynhadledd academiaidd 2. Trafod yr hyn y dylid ei gynnwys (ac na ddylid ei gynnwys) 3. Gwerthuso'n feirniadol bosteri enghreifftiol 4. Edrych ar y mathau gwahanol o feddalwedd y gellir eu defnyddio i lunio eich poster (e.e. powerpoint/ canva) 5. Meddwl am y manteision a'r anfanteision, a'r hyn na ddylid ei wneud yn bendant, o ran defnyddio AI ar gyfer elfennau gwahanol o'ch poster 6. Siarad am 'gyflwyno' eich poster Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Laura Wilkinson yn Athro Cysylltiol ac yn Arweinydd Ymchwil yn yr Ysgol Seicoleg. Roedd hi'n arfer bod yn Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd ac yn rhan o'r rôl honno bu'n Feirniad Poster Cynhadledd Ymchwil Ôl-raddedig. Mae Laura wedi bod yn asesu poster arddull cynhadledd academiaidd fel rhan o'i modiwl blwyddyn olaf arbenigol am dros ddeng mlynedd ac mae wedi cynnig sesiynau arweiniad i gefnogi hyn.
Clwb Ysgrifennu Myfyrwyr Ymchwil Ôl-Raddedig	Eleni, rydym yn ail-lansio'r Clwb Ysgrifennu i Ymchwilwyr Ôl-raddedig, fel digwyddiad tymhorol, diwrnod llawn, a fydd yn cyfuno amser ysgrifennu pwrpasol â chyfleoedd i gysylltu ac ymgysylltu â'r gymuned ymchwil ôl-raddedig ehangach. P'un a ydych chi'n gweithio tuag at ddyddiad cau sydd ar ddod, yn chwilio am gymhellant, neu'n mwynhau ysgrifennu ochr yn ochr ag eraill, mae'r clwb ysgrifennu i ymchwilwyr ôl-raddedig wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i wneud cynnydd ystyrlon. Mae'r Clwb Ysgrifennu, sy'n cael ei gynnal yr Hyb ymchwil ôl-raddedig, Lefel 3, Tŵr Faraday, yn darparu amgylchedd cefnogol a strwythuredig i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau ysgrifennu. Byddwn yn dechrau drwy drafod nodau ysgrifennu unigol, a dilynir hyn gan sesiynau ysgrifennu â ffocws, heb ddim byd i dynnu'ch

	sylw. Bydd seibiannau rheolaidd yn eich galluogi chi i gysylltu ag eraill a rhannu eich cynnydd neu eich rhwystredigaethau. Bydd y bore'n cael ei glustnodi i amser ysgrifennu strwythuredig, gan eich helpu i feithrin momentwm a gwneud cynnydd ar eich gwaith. Yn y prynhawn, bydd gennych chi'r opsiwn i barhau i ysgrifennu neu gymryd rhan mewn ystod o ddigwyddiadau cymunedol anffurfiol. Porwch ein cwpwrdd crefftau (neu dewch â phrosiect crefft gyda chi), rhowch gynnig ar ychydig o ysgrifennu creadigol, mwynhewch daith gerdded o gwmpas Parc Singleton, neu manteisiwch ar yr amser i gysylltu ag eraill. Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi am ddiwrnod cynhyrchiol, llawn mwynhad o ysgrifennu, myfyrio a chymuned. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
Cyflwyno mewn Cynadleddau	Ydych chi'n paratoi i gyflwyno eich gwaith ymchwil mewn candel ac yn meddwl am y ffordd orau o wneud yn fawr o'r cyfle? Mae'r gweithdy hwn yn benodol ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig fel chi. Efallai eich bod yn newydd i gynadleddau academiaidd neu am fireinio eich sgiliau cyflwyno, bydd y sesiwn hon yn eich helpu i droi eich syniadau'n gynllun cymhellol. Dewch â chwestiynau, ansicrwydd neu gysyniadau cynnar - a byddwch yn gadael gyda strategaethau ymarferol, ac ymdeimlad clir o gyfeiriad a'r hyder i gyflwyno eich gwaith ag effaith. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Tyrie yn Uwch-ddarlithydd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac yn gyfarwyddwr y rhaglen MA mewn Astudiaethau Plentyndod. Mae Jacky wedi gweithio ers 15 mlynedd fel darlithydd ac ymchwilydd ym maes addysg uwch, gan weithio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe.
Cystadleuaeth 3MT	Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gyfathrebwr da? Allwch chi esbonio eich traethawd ymchwil mewn ffordd ddarbwyllol i bobl y tu allan i'ch maes chi? Beth am wneud hynny mewn tair munud yn unig? Mae Thesis Tair Munud (3MT) yn gystadleuath genedlaethol sy'n gofyn i chi wneud hynny. Mae 3MT yn herio myfyrwyr doethurol i gyflwyno eu pwnc ymchwil i gynulleidfa nad ydynt yn arbenigwyr mewn tair munud yn unig gan roi cyfle iddynt arddangos eu hymchwil a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

	Bydd cystadleuaeth 3MT Prifysgol Abertawe yn agor, cyn hir a chaiff y cynigion gorau eu cynnwys yn rownd derfynol Abertawe a gynhelir ym mis Mai a bydd yr enillwyr yn cystadlu yn y gystadleuaeth genedlaethol. Fel cystadleuydd 3MT, ochr yn ochr â'n hyfforddiant arferol, cewch fynediad at gymorth penodol i'ch helpu chi i baratoi eich cyflwyniad. Cewch ragor o wybodaeth yn ein sesiynau gwybodaeth: Cael cyngor ar sut i roi cyflwyniad gwyh, a chanfod yr hyn sy'n digwydd nesaf yn y gystadleuaeth, gan gynnwys sut i gael mwy o hyfforddiant. Mae 3MT yn gyfle gwyh i ganolbwyntio ar eich ymchwil gan eich galluogi i'w hamlygu, yn ogystal â gwella eich sgiliau cyfathrebu a gobeithiwn weld mwy byth o fyfyrwyr Abertawe yn cymryd rhan eleni. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau. Mae Sally Robb yn Swyddog Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu rhaglenni i gefnogi llwyddiant ymchwilwyr ôl-raddedig.
Sesiwn wybodaeth 3MT	Ydych chi'n meddwl y gallwch chi gyflwyno eich ymchwil yn effeithiol i gynulleidfa amlldisgyblaethol mewn tair munud yn unig? Dyna beth mae'r gystadleuaeth Thesis Tair Munud yn gofyn i chi ei wneud, ac mae'n gyfle perffaith i fireinio eich sgiliau i gyfleu eich ymchwil. Yn y sesiwn wybodaeth hon, byddwch chi'n cael rhagor o wybodaeth am y gystadleuaeth ynghyd â chynghor ar sut i roi cyflwyniad gwyh a chyfleu eich ymchwil mewn ffordd sy'n ddealladwy i bawb. Byddwn ni hefyd yn esbonio sut mae'r gystadleuaeth yn gweithio a'r cymorth sydd ar gael wrth i chi gymryd rhan Byddwch yn dysgu: • Dealltwriaeth o'r hyn mae'r gystadleuaeth 3MT yn ei gynnwys a'r hyn sy'n gwneud sgwrs fuddugol • Technegau ar gyfer esbonio eich ymchwil i gynulleidfa anarbenigol • Technegau i grynhoi pwyntiau allweddol eich ymchwil mewn cyflwyniad sy'n para 3 munud. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.

	Mae Sally Robb yn Swyddog Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu rhaglenni i gefnogi llwyddiant ymchwilwyr ôl-raddedig
--	--

Ymgysylltu a Chymunedau Ymchwil	
Teitl y gweithdy	Disgrifiad o'r gweithdy
Camau i lwyddiant ymchwil ôl-raddedig: Dechrau ar eich ymchwil	Mae'r gweithdy yn eich cefnogi chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnoch i ffynnu yn eich astudiaethau ymchwil ôl-raddedig. P'un a ydych chi ar fin dechrau neu'n edrych am safbwynt newydd, bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy gamau allweddol y daith ymchwil ôl-raddedig - o gerrig milltir cychwynnol hyd at nodau hir dymor. Byddwn yn archwilio'r hyn a ddisgwylir ar adegau gwahanol yn ystod eich gradd, sut i fanteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael ar draws y brifysgol, a sut i feithrin perthynas gynhyrchiol â'ch goruchwylwyr. Bydd gennych hefyd y cyfle i gysylltu â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eraill o ddisgyblaethau gwahanol, i rannu profiadau, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eich llwybr eich hun. Er bod y sesiwn ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, mae croeso i fyfyrwyr presennol ymuno ac ennill mewnwelediadau newydd i'r daith ymchwil. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau. Mae Sally Robb yn Swyddog Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu rhaglenni i gefnogi llwyddiant ymchwilwyr ôl-raddedig.
Hanfodion EDI: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymchwil Ôl-raddedig Cynhwysol	Sut gallwn ni greu amgylchedd ymchwil ffyniannus sy'n cynnwys ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ymagweddau, sgiliau a safbwyntiau? Pam mae eu hangen arnom? Sut gallwn ni elwa ohonynt? Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio manteision hyrwyddo EDI mewn gweithgareddau ymchwil, strategaeth i greu system ymchwil ac arloesi fwy cynhwysol a'r hyn y mae'n ei olygu i chi wrth gynllunio a chyflwyno ymchwil. Drwy astudiaethau achos, byddwn yn arddangos ac yn trafod cyfleoedd i ymgorffori EDI mewn prosiectau ymchwil i gynhyrchu newid go iawn a

	thrawsnewid y ffordd rydym yn creu gwybodaeth ac effaith ar gymdeithas. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Anna Seager yn Rheolwr Diwylliant Ymchwil yn y Brifysgol, ac yn arwain y gwaith o ddatblygu diwylliant ymchwil cynhwysol, agored a chyfrifol yn Abertawe. Mae ganddi gefndir mewn geneteg.
Mae goruchwyliaeth yn bwysig: Gwneud y mwyaf o berthnasoedd goruchwyllo	Mae'r berthynas sydd gennych chi â'ch goruchwylwr yn un o agweddau pwysicaf eich gradd ymchwil. Bydd y gweithdy hwn yn archwilio ffyrdd ymarferol y gallwch helpu i feithrin perthynas oruchwyllo effeithiol, gan gynnwys cyfathrebu, cyfarfodydd ac adborth. Byddwn hefyd yn trafod rhai astudiaethau achos a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau a chael cyngor ar eich profiadau eich hun. Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
Clwb Ysgrifennu Myfyrwyr Ymchwil Ôl-Raddedig	Eleni, rydym yn ail-lansio'r Clwb Ysgrifennu i Ymchwilwyr Ôl-raddedig, fel digwyddiad tymhorol, diwrnod llawn, a fydd yn cyfuno amser ysgrifennu pwrpasol â chyfleoedd i gysylltu ac ymgysylltu â'r gymuned ymchwil ôl-raddedig ehangach. P'un a ydych chi'n gweithio tuag at ddyddiad cau sydd ar ddod, yn chwilio am gymhellant, neu'n mwynhau ysgrifennu ochr yn ochr ag eraill, mae'r clwb ysgrifennu i ymchwilwyr ôl-raddedig wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i wneud cynnydd ystyrlon. Mae'r Clwb Ysgrifennu, sy'n cael ei gynnal yr Hyb ymchwil ôl-raddedig, Lefel 3, Tŵr Faraday, yn darparu amgylchedd cefnogol a strwythuredig i'ch helpu chi i gyflawni eich nodau ysgrifennu. Byddwn yn dechrau drwy drafod nodau ysgrifennu unigol, a dilynir hyn gan sesiynau ysgrifennu â ffocws, heb ddim byd i dynnu'ch sylw. Bydd seibiannau rheolaidd yn eich galluogi chi i gysylltu ag eraill a rhannu eich cynnydd neu eich rhwystredigaethau. Bydd y bore'n cael ei glustnodi i amser ysgrifennu strwythuredig, gan eich helpu i feithrin momentwm a gwneud cynnydd ar eich gwaith. Yn y prynhawn, bydd gennych chi'r opsiwn i barhau i ysgrifennu neu gymryd rhan mewn ystod o ddigwyddiadau cymunedol anffurfiol. Porwch ein cwpwrdd creffttau (neu dewch â phrosiect crefft gyda chi), rhowch gynnig ar ychydig o ysgrifennu creadigol, mwynhewch daith gerdded o gwmpas Parc Singleton, neu manteisiwch ar yr amser i gysylltu ag eraill. Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi am ddiwrnod cynhyrchiol, llawn mwynhad o ysgrifennu, myfyrio a chymuned.

	Bywgraffiad yr Hyfforddwr: Mae Dr Teresa Phipps yn Rheolwr Datblygu Ymchwilwyr yn y Brifysgol, ac mae ganddi brofiad ym maes ymchwil hanesyddol a chefnogi ymchwilwyr mewn addysg uwch ac elusennau.
--	---